# Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal

## EOC(3)-16-08 (p.4) : 4 Rhagfyr 2008

### Nodyn ynghylch y drafodaeth anffurfiol ar yr Ymgyrch Cyflog Cyfartal, 26/11/08

### Presennol:

Ann Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal
Alex Bevan, Swyddog Cymorth Ann Jones
Tom Jackson, Clerc y Pwyllgor Cyfle Cyfartal
Rita Phillips, Dirprwy Glerc y Pwyllgor Cyfle Cyfartal
Martin Mansfield, Cyngres yr Undebau Llafur (TUC)
Derek Walker, Cyngres yr Undebau Llafur (TUC)
Sue Dye, Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC)

### Trafodaeth:

Bu'r cyfranogwyr yn trafod fforymau posibl ar gyfer Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a fyddai'n derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau o ran yr Ymgyrch Cyflog Cyfartal yng Nghymru, ac ar gyfer tynnu sylw'r cyhoedd at yr Ymgyrch Cyflog Cyfartal.

Ystyriwyd na fyddai sefydlu is-bwyllgor na grwp anffurfiol dan berchnogaeth Cyngres yr Undebau Llafur, yn addas i'r diben hwn.

Cynigiodd y cyfranogwyr bod Cyngres yr Undebau Llafur a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal am y datblygiadau o ran yr Ymgyrch Cyflog Cyfartal oddeutu pob chwarter. Nododd y cyfranogwyr y byddai'n bosibl i Aelodau'r pwyllgor graffu ar waith Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran materion a godwyd gan Gyngres yr Undebau Llafur neu'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

### Cam i'w gymryd:

Cytunodd y cyfranogwyr y byddai'r cynnig hwn yn cael ei roi i'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal, a chyn belled â bod y cynnig hwn yn cael ei gytuno, byddai'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a Chyngres yr Undebau Llafur yn cael eu gwahodd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor o leiaf unwaith y tymor.